Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr

Beth ydyn nhw?

Mae Gwobrau Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr yn ddull gwych o ddathlu arferion da wrth addysgu, yn ogystal â chreu cyfleoedd i ddysgwyr gyfranogi mwy mewn prosesau addysgu a dysgu.

Bwriad y gwobrau yw rhoi dysgwyr wrth galon y broses benderfynu – nhw sy'n enwebu ac eistedd ar y paneli beirniadu i benderfynu pwy fydd yr enillwyr.

Gall y dysgwyr a staff sy'n cael eu dathlu, yn ogystal â'r sefydliad cyfan, elwa'n sylweddol o hyn.

Pam GDdAM?

Mae Gwobrau Dysgu'n ffordd wych o ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, ac mae manteision i bob un ohonynt.

Myfyrwyr

- Rhoi llais i ddysgwyr i dynnu sylw at yr hyn sy'n gwneud ymarfer addysgu rhagorol
- Rhoi grym i ddysgwyr i gyfrannu at wella dulliau dysgu ac addysgu
- Darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau rheoli digwyddiadau
- Gellir gwella cyfraddau boddhad myfyrwyr gan ddefnyddio gwybodaeth o'r enwebiadau

Staff

- Caiff ymdrechion staff eu dathlu a'u hybu
- Mae modd defnyddio enwebiadau i helpu staff i ddatblygu
- Rhoddir gwybod i'r staff am yr hyn mae dysgwyr ar eu pwnc yn ei werthfawrogi o ran dysgu ac addysgu

Sefydliad

- Mae enwebiadau'n darparu tystiolaeth ansoddol o ran a yw'r strategaethau a ddefnyddir yn llwyddiannus
- Mae modd canfod arferion addysgu da a'u defnyddio i wella safonau proffesiynol
- Mae modd gwella canlyniadau arolygon o fyfyrwyr yn seiliedig ar enwebiadau

Ble i ddechrau

Mae GDdAM yn gweithio orau wrth eu gweithredu mewn partneriaeth rhwng dysgwyr a sefydliadau – dylai'r ddau grŵp fod yn rhan o'r broses benderfynu ffurf a threfn y gwobrau, a dylai'r ddau fod am gefnogi'r prosiect. Bydd angen cymorth ariannol arnoch gan staff y sefydliad yn arbennig, felly mae sicrhau eu cefnogaeth yn hanfodol. Mae'n werth sylwi, fodd bynnag, bod modd creu GDdAM beth bynnag fo'ch cyllideb. Cewch fwy o gyngor ar hyn isod.

Mae cyflwyno GDdAM yn gweithio orau wrth eu gweithredu mewn partneriaeth.

Unwaith y bydd gennych rwydwaith o unigolion brwd, bydd hi'n bryd dechrau taro ar syniadau o ran y gwobrau eu hunain.

Categorïau a meini prawf

Mae'r categorïau rydych chi'n eu gosod ar gyfer y gwobrau'n bwysig iawn i annog eich dysgwyr i enwebu. **Meddyliwch am yr hyn fydd yn apelio atynt, yr hyn sy'n bwysig iddynt, a pham fyddent am enwebu staff addysgu.** Efallai y byddai cynnwys dysgwyr yn y cam hwn yn fanteisiol, er mwyn iddynt gyfrannu at y syniadau hyn.

Mewn rhai sefydliadau, gall un categori yn unig, neu ambell un, fod yn briodol. Mewn eraill, efallai y bydd mwy o gategorïau'n bosib er mwyn helpu i ddathlu amrywiaeth fwy o ddulliau addysgu. Beth bynnag a wnewch, mae'n bwysig bod y categorïau'n glir iawn, er mwyn osgoi darbwyllo dysgwyr rhag cymryd rhan yn y cam cychwynnol. Os nad ydyn nhw'n deall yr hyn mae'r wobr yn ei gynrychioli, ni fydd modd iddynt enwebu staff amdani.

Os nad yw dysgwyr yn deall yr hyn y mae'r wobr yn ei gynrychioli, ni fydd modd iddynt enwebu staff amdani.

Unwaith i chi benderfynu'r categorïau, mae'n synhwyrol sicrhau eich bod yn gosod meini prawf clir sy'n cynnwys yr hyn mae pob gwobr yn ei gynrychioli. Hebddyn nhw, gall y broses feirniadu fod yn anodd. Unwaith eto, byddai'n ddoeth gofyn i ddysgwyr am eu barn ar y cam hwn, yn enwedig gan y byddant yn ffurfio rhan o'r panel beirniadu.

Sicrhewch eich bod yn gosod meini prawf clir sy'n cynnwys yr hyn mae pob gwobr yn ei gynrychioli.

Gallwch fabwysiadu sawl arddull gwahanol o gategori, o themâu penodol i bynciau ehangach. Er enghraifft, mae Napier Caeredin yn defnyddio dau gategori – 'Dwi'n caru fy nhiwtor' a 'Dwi'n caru fy nhiwtor datblygu personol' – sy'n syml iawn ac yn hawdd eu deall. Roedd hyn yn bwysig i ennyn diddordeb dysgwyr, tra roedd y meini prawf a osodwyd yn ddigon penodol i sicrhau proses feirniadu ddi-drafferth. Mae sefydliadau eraill (EUSA, UWS, UHI i enwi rhai) yn seilio'u categorïau ar themâu penodol yn seiliedig ar adborth gan ddysgwyr, neu ynghyd â'u blaenoriaethau dysgu ac addysgu eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys themâu fel adborth, arloesedd, cyflogadwyedd, ysbrydoliaeth a threfn, yn rheolaidd.

Mae'n werth ystyried a ydych am gael gwobrau hefyd ar gyfer y staff sydd ddim yn addysgu. Ym Mhrifysgol Caerdydd, maen nhw wedi newid eu gwobrau ychydig i gynnwys categorïau ar gyfer amrywiaeth o staff cymorth. Maen nhw wedi ailenwi eu gwobrau yn 'Gwobrau Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr'.

Hefyd, mae'n bwysig ystyried nifer y gwobrau fydd gennych – **does dim angen llawer arnoch i'w gwneud yn werth chweil**. Meddyliwch am yr hyn sy'n berthnasol i'ch sefydliad ar hyn o bryd, a'r hyn sy'n berthnasol i gorff y myfyrwyr. Gallwch newid a datblygu hyn dros y blynyddoedd, gan ychwanegu atynt os bydd angen.

Enwebiadau

Mae amseru'r cyfnod enwebu'n hynod o bwysig. Ceisiwch osgoi gwrthdaro â chyfnodau pleidleisio eraill (e.e. etholiadau cynrychiolwyr cwrs) i leihau'r dryswch. Lansiodd Undeb Myfyrwyr Brighton eu gwobrau nhw fel rhan o ymgyrch fwy Wythnos Ymgysylltu, a fu'n llwyddiannus. Os cewch nifer isel o enwebiadau yn eich blwyddyn gyntaf, ceisiwch symud y cyfnod enwebu i weld a yw'n gwella'r cyfranogiad. Mae angen i hyd y cyfnod enwebu fod yn ddigon hir hefyd i annog cyflwyniadau meddylgar, ond nid mor hir i golli diddordeb y dysgwyr.



Ystyriwch y dull enwebu hefyd. Er bod rhai sefydliadau'n meddwl bod defnyddio copïau papur caled yn ddefnyddiol, bydd eraill yn defnyddio fforymau ar-lein. Mae'r cyfan yn dibynnu ar natur eich sefydliad a'ch gwobrau.

Mae cyflwyniadau papur yn caniatáu ymagwedd fwy ymarferol ar hyrwyddo, gan felly annog nifer fwy o enwebiadau. Fodd bynnag, os oes gennych lawer o wobrau, gallai papur fod yn aneffeithiol ac yn broblemus i'r amgylchedd.

Mae ffurflenni ar-lein yn rhoi cyfle i ddysgwyr eistedd a meddwl am eu hatebion, gan felly ddarparu ymateb mwy meddylgar. Ond mae ganddyn nhw eu problemau eu hunain gan fod gofyn i ddysgwyr lenwi llwyth o arolygon yn aml, felly rhaid i chi fod yn ofalus i osgoi 'blinder adborth'.

Pa un bynnag sydd fwyaf addas i chi, ceisiwch sicrhau eich bod chi'n defnyddio cwestiynau agored yn eich ffurflenni. Mae darparu lle ar gyfer sylwadau yn cynnig darlun mwy manwl o'r rheswm pam gafodd yr unigolyn ei enwebu, a gall wneud y broses greu rhestr fer yn haws. Bydd modd defnyddio'r wybodaeth werthfawr hon i ffurfio prosiectau eraill yn eich sefydliad yn y dyfodol.

Hefyd, mae'n ddoeth cynnwys gwybodaeth ar y ffurflen enwebu am yr hyn fydd yn digwydd nesaf, fel bod dysgwyr yn deall y gweithdrefnau creu rhestr fer a dyfarnu yn llwyr. **Mae tryloywder yn gwella'r ymddiriedaeth yn y broses yn ogystal â'r canlyniadau.**

Mae rhai sefydliadau'n sbarduno pobl i enwebu gyda gwobrau, ond byddai'n werth penderfynu a fyddai eich dysgwyr am i hynny fod yn rheswm dros enwebu, yn hytrach nag oherwydd ysbrydoliaeth wirioneddol y staff addysgu.

Hyrwyddo

Mae angen hunaniaeth ar eich gwobrau sy'n cyd-fynd â'ch sefydliad a'ch dysgwyr. Gall hyn olygu rhywbeth mor syml â defnyddio brand priodol, neu gallech fynd mor bell ag Undeb Myfyrwyr Marjon a defnyddio mascotiaid i greu 'cyffro'.

Unwaith i chi benderfynu enw eich gwobrau, bydd angen i chi feddwl sut yn union byddwch chi'n hyrwyddo'r enwebiadau. Dyma ambell syniad:

- Anfonwch e-byst at bob myfyriwr
- Defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol
- Crëwch bosteri a gosodwch nhw o gwmpas
- Gofynnwch i wirfoddolwyr helpu i hyrwyddo
    - Dosbarthwch bosteri/bapurau enwebu
    - Hyrwyddwch gyda stwff am ddim (e.e. te yn y llyfrgell – Strathclyde)
    - Rhowch grysau-t wedi'u brandio iddynt eu gwisgo

- Crëwch stwff am ddim wedi'u brandio sydd â manylion sut i enwebu – bathodynnau/cortynnau gwddf/pennau
- Hyrwyddwch drwy'r wefan gan ddefnyddio erthyglau neu bosteri
- Rhowch wybodaeth mewn unrhyw gylchlythyrau mewnol
- Gofynnwch i gynrychiolwyr cwrs helpu i hyrwyddo
    - Siaradwch â phobl amdanynt
    - Cyhoeddiadau mewn darlithoedd
- Anfonwch e-byst at yr holl staff

Gofynnodd CSM ym Mhrifysgol Celfyddydau Llundain i'w myfyrwyr gynhyrchu'r gwobrau eu hunain. Roedd yn ffordd wych o ennyn diddordeb y myfyrwyr a hyrwyddo eu gwaith ochr yn ochr â gwaith y staff.

Ni fydd y gwaith hyrwyddo'n dod i ben unwaith i'r cyfnod enwebu orffen.

Ni fydd y gwaith hyrwyddo'n dod i ben unwaith i'r cyfnod enwebu orffen, fodd bynnag. Yn eich seremoni wobrwyo, sicrhewch eich bod yn manteisio ar y cyfle i gasglu lluniau a chlipiau fideo y bydd modd eu defnyddio i helpu i hyrwyddo'r digwyddiad yn y dyfodol. Byddai gofyn i'ch dysgwyr cyfryngau gydweithio ar hyn yn ffordd wych o ddod â nhw yn ôl at y prosiect, yn ogystal ag arbed arian. Bydd eu cyfraniad yn helpu i ledaenu'r gair am y digwyddiad i ddysgwr, a'r gobaith yw y bydd yn arwain at fwy o gyfranogi yn y dyfodol.

Hefyd, mae ffrydio'r digwyddiad yn fyw, neu rannu uchafbwyntiau ohono, yn ffordd wych o ennyn diddordeb pobl na allent fynychu. Byddai hyn yn arbennig o fuddiol i ddysgwyr o bell neu ddysgwyr ran amser.

Beirniadu a chreu rhestr fer

Unwaith y daw'r enwebiadau i law, bydd angen i chi ffurfio panel i greu rhestr fer a phenderfynu pwy fydd yr enillydd. Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn eistedd ar y panel beirniadu, ond bydd yn werth meddwl am ba fath o ddysgwyr fyddai am fod yn rhan ohono, fel cynrychiolwyr. Efallai bydd dysgwyr yn neidio at y cyfle i gymryd rhan, yn enwedig os byddwch chi'n tynnu sylw at ba mor apelgar y byddai'n edrych ar CV.

Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn eistedd ar y panel beirniadu.

Sicrhewch fod eich panel yn ddigon mawr i gynrychioli amrywiaeth o fyfyrwyr, ond yn ddigon bach i ganiatáu i bawb gyfarfod a phenderfynu gyda'i gilydd.

Mae ansawdd yr enwebiad yn bwysig, yn hytrach na'i faint.

Os oes gennych chi feini prawf cryf a chlir, dylai'r broses feirniadu fod yn hawdd. Efallai y bydd yn werth trafod eich union ddull a'ch strategaeth ar gyfer rhestr fer, fel system sgorio, i sicrhau bod y broses yn dryloyw. Mae'n werth cofio hefyd bod ansawdd yr enwebiad yn bwysig, yn hytrach na'i faint. Os bydd un aelod o staff wedi cael mwy o enwebiadau nag un arall, ni fydd o reidrwydd yn golygu ei fod yn fwy haeddiannol.

Pan fydd gennych chi eich rhestr fer a'ch enillwyr, mae'n werth penderfynu sut rydych chi am roi gwybod i weddill yr enwebeion eu bod wedi cael canmoliaeth. Dylai cael eich enwebu fod yn gyrhaeddiad ynddo'i hun, felly mae'n bwysig tynnu sylw at hyn.

Seremoni wobrwyo

Nesaf, bydd angen i chi ystyried sut rydych chi am gyflwyno'ch gwobrau. Bydd rhai sefydliadau'n dewis cael dathliad mawr, ffurfiol gyda phryd o fwyd, tra bydd eraill yn cynnal digwyddiadau llai a mwy anffurfiol. Mae llawer ohonyn nhw'n dewis eu cynnal yn yr undeb neu ynghyd â digwyddiadau llais y dysgwr, i bwysleisio bod dysgwyr wrth wraidd y prosiect. Bydd eraill yn ychwanegu'r gwobrau at ddigwyddiadau sy'n bodoli eisoes (e.e. gwobrau llais y dysgwr neu gynhadledd llais y dysgwr) i arbed amser ac arian i'r sefydliad. Os byddwch chi'n mabwysiadu'r ymagwedd olaf, ystyriwch a yw'r digwyddiad yn berthnasol a sicrhewch nad yw'n lleihau pwysigrwydd y gwobrau.

Dyma gyfle perffaith i roi'r pwyslais yn ôl ar y dysgwyr. Mae'n gweithio'n llwyddiannus yn Undeb Myfyrwyr Sunderland, lle mae eu myfyrwyr 'Rheoli Digwyddiadau' yn cyflwyno'r prosiect fel rhan o'u hastudiaethau ail flwyddyn. Caiff cymorth ei gynnig drwy Arweinydd y Cwrs, ond yn y pen draw, mae'r myfyrwyr yn trefnu ac yn cynnal y prosiect, gan gynnwys y seremoni ar y diwedd.

Bydd lleoliad eich digwyddiad yn helpu i benderfynu pwy ddylech chi eu gwahodd. Mae digwyddiadau mwy anffurfiol fwyaf addas i'r staff sydd wedi cael eu henwebu a'r dysgwyr a enwebodd nhw, ond os ydych chi'n cynnal digwyddiad ffurfiol, efallai y byddwch chi am ystyried gwahodd gwesteion arbennig. Ymhlith y gwesteion a wahoddir i sefydliadau eraill mae'r ASA, gwleidyddion lleol, UCM a'r AAU. Bydd gwahodd gwesteion arbennig yn helpu i godi proffil y digwyddiad.

Fel arfer, gall y gwobrau eu hunain fod ar ffurf tlws neu dystysgrif syml, yn hytrach nag unrhyw fath o wobr ariannol. Mae'r rhain yn gallu bod yn gynaliadwy, os byddwch chi'n eu cadw nhw am flwyddyn, eu dychwelyd a cherfio enw newydd arnynt bob blwyddyn. Os bydd yn briodol, byddai modd eu cadw nhw mewn cypyrddau tlysau cyhoeddus i hyrwyddo'r gwobrau a'u henillwyr ymhellach.

Gwerthuso a'r camau nesaf

Rhan allweddol o'r GDdAM yw gwerthuso'r canlyniadau. Gall hyn gymryd llawer o amser, ond gall ddarparu gwybodaeth hynod werthfawr i'ch sefydliad hefyd.

Sicrhewch fod grŵp mor eang â phosib o ddysgwyr wedi cymryd rhan, yn ogystal ag ymgysylltu â'r holl staff addysgu. Edrychwch dros eich enwebiadau a cheisiwch ganfod a yw unrhyw un o'r grwpiau hyn wedi cael eu hepgor, a'r hyn gallwch chi ei wneud i wella hyn yn y dyfodol.

Mae GDdAM yn ffynhonnell werthfawr o adborth gan ddysgwyr.

Defnyddiwch yr wybodaeth yn yr enwebiadau fel sail i'ch strategaeth ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Ystyriwch feysydd allweddol sy'n boblogaidd gyda'r dysgwyr (e.e. brwdfrydedd, haelioni amser, hiwmor) a gwreiddiwch nhw mewn cynlluniau gwaith. Mae modd defnyddio'r rhain i lywio strategaethau addysgu, cyrsiau, a hyd yn oed datblygiad staff. Gyda hyn, gall safonau yn eich sefydliad wella, yn ogystal â sgoriau yn yr ACF neu arolygon eraill o foddhad myfyrwyr. Mae GDdAM yn ffynhonnell werthfawr o adborth gan ddysgwyr, os byddan nhw'n cael eu dadansoddi'n gywir.

Mae modd defnyddio'r wybodaeth yn yr enwebiadau i lywio strategaethau addysgu, cyrsiau, a hyd yn oed datblygiad staff.

Os byddwch chi'n defnyddio'r enwebiadau i hyfforddi'ch staff addysgu, mae'n bwysig cofio y dylech chi ddefnyddio'r wybodaeth i'w gwneud nhw'n ymwybodol o'r hyn mae dysgwyr yn ei werthfawrogi, yn hytrach na dweud wrthyn nhw sut i addysgu.

Efallai y bydd eich gwobrau'n newid dros amser, gan ddibynnu ar yr hyn sy'n berthnasol i'ch dysgwyr. Wrth i nifer yr enwebiadau gynyddu, gallech chi ychwanegu mwy o wobrau i ddathlu amrywiaeth fwy o arferion addysgu.

Ar ôl dadansoddi'ch canlyniadau, **bydd angen i chi eu rhannu nhw**. Mae rhai sefydliadau'n creu llyfrynnau sy'n crynhoi canlyniadau'r gwobrau. Gall hyn roi gwybod i ddysgwyr a staff am yr arferion da a wobrwywyd, yn ogystal â'r broses yn ei chyfanrwydd.

Gall defnyddio'r wybodaeth hon mewn hyfforddiant i gynrychiolwyr roi syniad i'ch dysgwyr o ran pa arferion a gafodd eu gwerthfawrogi gan eu cyfoedion, a gall roi grym iddyn nhw i bwyso o'r gwaelod i fyny am newid.

Mae modd rhoi enwebiadau mewn banc o ddyfyniadau ynghylch dysgu ac addysgu ac mae modd defnyddio'r rhain mewn areithiau, hyfforddiant ac adroddiadau. Gellir defnyddio data meintiol ar gyfer ystadegau, i atgyfnerthu'r dadleuon a wnewch chi mewn ymgyrchoedd.

Astudiaeth Achos: Afalau Aur

Yn 2013, cyflwynodd Coleg Caerdydd a'r Fro yr Afalau Aur, eu gwobrau dan arweiniad myfyrwyr eu hunain ar gyfer eu staff. Gallai'r dysgwyr enwebu a phleidleisio drwy Moodle ar gyfer tri chategori (darlithydd, cynorthwy-ydd dysgu neu aelod o staff sydd ddim yn dysgu). Caiff ei hysbysebu ar bosteri, Porth y Dysgwyr, tîm Undeb y Myfyrwyr, cylchlythyr staff a chynrychiolwyr cyrsiau. Cyflwynir tystysgrifau yng Nghynhadledd Llais y Dysgwr gan y Llywodraethwyr Myfyrwyr a thîm Undeb y Myfyrwyr. Mae dysgwyr wedi helpu i gyflwyno tystysgrifau i'r staff hefyd.

Yn 2014, dywedodd Cydlynydd Llais Myfyrwyr y Coleg: "Mae'r Gwobrau Afalau Aur wedi bod yn gyfle gwych i'r myfyrwyr ddangos eu gwerthfawrogiad o staff y Coleg yn gyffredinol – nid dim ond eu darlithwyr ond pawb sy'n rhan o gymuned y Coleg."

Crynodeb

Mae angen ystyried llawer o bethau os ydych chi'n bwriadu creu GDdAM, ond gall y canlyniad terfynol fod yn hynod o foddhaol i bawb sy'n gysylltiedig. Dechreuwch yn fach, a datblygwch gynlluniau bob blwyddyn i'w gwneud yn haws. Mae hon yn arfer partneriaeth y gall pawb ei werthfawrogi, gan y dylid croesawu unrhyw gyfle i ddathlu gwaith caled y staff neu'r myfyrwyr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Wise Cymru (manylion isod).

Adnoddau

- Student-Led Teaching Awards in FE Colleges (UCM, 2013)
- Gwefan GDdAM yr Academi Addysg Uwch
- Gwobrwyo a chydnabod: Student-Led Teaching Awards Report (Thompson a Zaitseva, 2012)
- Student-Led Teaching Awards: lessons from a leading higher education initiative in Scotland (Davies, Hope a Robertson, 2012)
- Student-Led Teaching Awards 2011-12 Final Summary and Report (UCM, 2012)
- Darn newyddion Coleg Caerdydd a'r Fro ar yr Afalau Aur

Jessica Rumble,
Ymgynghorydd Prif / Lead Consultant
jessica.rumble@nus-wales.org.uk

Charlotte West,
Ymgynghorydd / Consultant
charlotte.west@nus-wales.org.uk